**RHAGLEN GRANTIAU CYMUNEDOL Y MEYSYDD GLO (CYMRU)**

**NODIADAU CANLLAW GRANT CYFALAF**

Ymddiriedolaeth Adfywio Meysydd Glo
ADEILADU FFYNIANT A CHYFLEOEDD

## Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo

Cafodd Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo (YAMG) ei sefydlu ym 1999 a dyma'r unig sefydliad dynodedig sydd yn datblygu ffyniant a chyfleoedd mewn cyn cymunedau glofaol, ledled y DU ac sydd yn cynrychioli dros 5.5 miliwn o bobl. Rydym yn falch o'r hyn yr ydym wedi ei gyflawni dros yr 20 mlynedd ddiwethaf ac rydym wedi darparu cynlluniau sydd wedi mynd i'r afael â'r heriau enfawr a grëwyd yn sgil dod â'r diwydiant i ben. Rydym wedi ymrwymo i gefnogi a gwella ansawdd bywyd y bobl sy'n byw mewn cyn-gymunedau glofaol.

Mae adeiladau cymunedol a mannau cymunedol yn chwarae rhan bwysig wrth ddod â phobl ynghyd at ddibenion iechyd, cymdeithasol, lles, addysg a hamdden. Mae CRT yn cydnabod rôl hanfodol cyfleusterau cymunedol wrth gryfhau ein gwead cymdeithasol a chreu cyfleoedd ar gyfer ein cymunedau meysydd glo. Mae cael lleoedd croesawgar a hygyrch yn cael effaith fawr ar brofiad person a'u tebygolrwydd o ddod yn ôl.

## Rhaglen Grantiau Cymunedol y Meysydd Glo

Gall Grant Cyfalaf Cymunedol y Meysydd Glo yng Nghymru ddyfarnu cyllid cyfalaf o £500 hyd at £7,000 ac fe'i hariennir gan Lywodraeth Cymru.

Nod y rhaglen hon yw cefnogi sefydliadau cymunedol a gwirfoddol, sy'n rheoli cyfleusterau cymunedol, i gael mynediad at gyllid sydd ei angen i: ddiogelu; cynnal; a/neu wella eu cyfleuster cymunedol.

## Meini Prawf Cymhwysedd

- Mae'n rhaid i'ch sefydliad feddu ar ddogfen lywodraethu addas.
- Rhaid i chi allu dangos sut mae eich prosiect o fudd i'r gymuned ehangach ac ni ddylai aelodau eich sefydliad fod yr unig fuddiolwyr. Rhaid i'r prosiect hefyd gael ei ganiatáu gan ddogfen lywodraethol eich sefydliad.
- Rhaid i chi allu darparu eich set ddiweddaraf o gyfrifon nad ydynt yn hŷn na 22 mis, neu ar gyfer sefydliadau newydd, rhagolygon o gyfrifon am 24 mis.
- Mae'n rhaid i incwm anghyfyngedig, blynyddol eich sefydliad fod yn llai na £500,000.
- Rhaid i chi gael cyfrif banc yn enw'r grŵp, gydag o leiaf ddau lofnodwr digyswllt.
- Rhaid i'ch prosiect fod wedi'i leoli mewn cymuned maes glo cymwys neu allu dangos manteision clir ac uniongyrchol i gymuned maes glo cymwys (os nad yw'n siŵr, cysylltwch â ni am eglurhad).
- Mae'n rhaid i'ch sefydliad fod yn berchen ar yr adeilad neu feddu ar brydles atgyweirio ac yswiriant lawn ag o leiaf bum mlynedd yn weddill.
- Mae'n rhaid i chi feddu ar bob caniatâd perthnasol ar gyfer eich prosiect e.e. caniatâd landlord, rheoliadau adeiladu, caniatâd cynllunio.

Nid oes angen cyllid cyfatebol ar y rhaglen ariannu hon, fodd bynnag, os ydym yn cyfrannu at brosiect cyfalaf mwy, byddai angen cadarnhad bod ffynonellau cyllido eraill (eu hunain neu'n allanol) wedi'u sicrhau cyn rhyddhau unrhyw gyllid (rhaid i gyfanswm cost y prosiect beidio â bod yn fwy na £150,000).

Bydd rhaid i ni:

- un dyfynbris am unrhyw eitem(au) dan £12,000
- a thri amcanbris y gellir eu cymharu am unrhyw waith/eitem/eitemau sydd dros £12,000.
- Proses dendro ffurfiol ar gyfer prosiectau sy'n fwy na chyfanswm o £30,000 - *byddai angen copi o'r tendrau arnom.*

*Nodwch nad yw'r costau hyn yn cynnwys TAW.*

Nid ydym yn gallu ariannu sefydliadau sydd: rydym wedi'u hariannu o fewn y 12 mis diwethaf; neu heb gwblhau monitro dyfarniadau blaenorol o dan y rhaglen Grantiau Cymunedol Meysydd Glo eto. Mae angen cwblhau'r holl grantiau CRT blaenorol a ddyfarnwyd cyn cyflwyno cais.

**Costau na allwn eu hariannu** (nid yw'r rhestr hon yn gyflawn):
*Sylwer mai cronfa gyfalaf yw hon, felly ni ellir ei defnyddio i ariannu costau refeniw fel arolygon, ffioedd proffesiynol, hyfforddiant neu gyflogau. Os oes angen arolygon/ffioedd proffesiynol arnoch a fydd yn helpu i ddiogelu neu wella ased cymunedol, efallai y byddwch yn gymwys i gael cymorth trwy ein rhaglen gymorth, cofrestrwch am gymorth pellach yma.*

- Costau prosiectau y mae'r ymddiriedolaeth wedi eu hariannu o'r blaen trwy Grantiau Cymunedol neu raglenni Pontio'r Gagendor
- Cyfraniad tuag at brosiect mwy sydd â chostau yn fwy na £150,000.
- Costau diffygiol neu ôl-weithredol (mewn geiriau eraill, costau rydych wedi ymrwymo i'w talu cyn i'ch cais gael ei gymeradwyo).
- Cyfalaf wrth gefn
- Creu neu gynnal llwybrau cerdded neu feysydd parcio
- Datblygu bariau neu ardaloedd bar er mwyn cynyddu elw
- Offer meddygol neu ymchwil
- Cyllid angenrheidiol ar gyfer credydau treth tirlenwi.
- Offer (er bod rhai costau'n gymwys, felly cysylltwch â ni i drafod).

**Sefydliadau na allwn eu hariannu:**

- Cyngor Tref
- Corff statudol

Os nad ydych yn siŵr a fydd eich sefydliad yn gymwys, cysylltwch â ni ar 01495 367680 neu e-bostiwch wales@coalfields-regen.org.uk cyn cyflwyno ffurflen gais.

## Proses Ymgeisio

Cwblhewch y Ffurflen Gais am Grant Cyfalaf a'i chyflwyno ynghyd â'r wybodaeth ofynnol fel y nodir ar y ffurflen gais i wales@coalfields-regen.org.uk a bydd aelod o'n tîm asesu yn cysylltu â chi o fewn 12 wythnos gyda phenderfyniad neu gais am ragor o wybodaeth.

Fel rhan o asesiad y prosiect, byddwn yn asesu os yw'r grant yn cyflawni gofynion Cymorth yr UE/Rheolaeth Cymhorthdal y DU. Efallai bydd angen i chi gyflwyno rhagor o wybodaeth am eich prosiect, eich sefydliad ac unrhyw arian a dderbyniwyd hyd yn hyn.

**Os oes gennych unrhyw ymholiadau, ffoniwch 01495 367680 neu e-bostiwch wales@coalfields-regen.org.uk**

*Noder: Rydym yn derbyn deunydd cais yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Mae deunydd cais ar gael yn y Gymraeg, cysylltwch â ni os ydych am gopi.*

*Please note: We accept application materials in English or Welsh. Application materials are available in Welsh, if you require a copy please contact us.*